# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*
## Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30/05/2023 am 7yh

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council
Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30/05/2023 am 7yh

John Brinley Jones (Cad) William Roger Jones David Andrew Parry

Hywel James Sinclair Evans Gwenllian Davenport Hughes (Ysgrifennu'r munudau canlynol)

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb oedd eisiau cyfrannu i roi eu llaw i fyny ac hefyd i wneud hyn pan yn pleidleisio.

**1. Ymddiheuriadau**
Ian Goronwy Williams
Greta Hughes
Alan Harper Smith
Patricia Hope-Whitney
Thomas Victor Jones
Ann Llwyd (Ddim angen cyfieithydd yn ystod y cyfarfod)

**2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
Dim.

**3. Cofnodion Pwyllgor 24/04/2023**
Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
Cynnig: David Andrew Parry Eilio: William Roger Jones

**4. Unrhyw Fater Brys**
Penderfynnwyd a cytunwyd gan bawb i ohirio'r Cyfarfod Blynyddol gan bod yna llawer yn absennol. Mae aelodau'r cyngor eisiau llongyfarch enwau cyfarwydd i Lanbedrog sydd wedi eu rhoi ymlaen i fod yn rhan o Orsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Cenedlaethol. Maent yn cynnwys Christine Jones, Aled Hughes, Mared Gwyn Jones a Mair Jones. Mae'r Cynghorwyr i gyd yn estyn eu balchder.

**Clerc Newydd**
Cafwyd un ymgeisydd ar gyfer y swydd sef Carys Jones. Penderfynwyd i gael yr un pedwar aelod o'r Cyngor i cyfweld â Carys, yr un rhai wnaeth cyfweld a Pat Hymphreys y cyn-glerc (William Roger Jones, David Andrew Parry, Greta Hughes, John Brinley Jones). Penderfynwyd i gynnal y cyfweliad am 6:30yh ar nos Fawrth y 6ed o Fehefin, cyn cyfarfod Pwyllgor Neuadd y Pentref. Dywedodd Gwenllian Davenport Hughes y buasai'n hapus i gyfweld â Carys Jones os nad ydi Greta Hughes ar gael.

**Ebost arddurno'r ffyrdd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol**
Adroddwyd gan David Andrew Parry cyfarfod wedi cymryd lle ynghlŷn a hyn wythnos dwythaf gyda tua 10 o bobl ac Ian Goronwy Williams yn cadeirio. Maent wedi cael y ffurflen i arwyddo ynghlŷn ag atebolrwydd cyhoeddus. Mae sawl un o drigolion y pentref wedi cynnig helpu arddurno.

**Parcio ger y Gali**
Codwyd y mater yma gan Alan Harper Smith. Cytunodd y Cynghorwyr bod parcio anghyfreithlon yn y pentref yn broblem ac yn beryglus mewn rhai achosion. Penderfynwyd i adael yr eitem yma tan cyfarfod mis nesaf.

**Ebost Iwan Hughes- Arddangosfa Berwyn Jones**
Brodor o Lanbedrog yw Berwyn Jones. Bydd Plas Glyn y Weddw yn cynnal arddangosfa o'i waith blwyddyn nesaf a felly'n gofyn am gefnogaeth ariannol. Maent am greu llyfryn sydd yn cynnwys cefndir a hanes ei gwaith, y mwyafrif ohono wedi eu hysbrydoli gan ardal Llanbedrog. Cynnigodd David Andrew Parry i drafod swm yng nghyfarfod nesaf y cyngor. Cynnigodd William Roger Jones ein bod yn argymell rhoi £500 ond i gymeradwyo'r ffigwr yma yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd pob aelod o'r pwyllgor gyda'r penderfyniad yma.

**5. Cyfraniad ariannol i O Ddrws i Ddrws**
Adroddwyd gan y Cadeirydd bod o wedi chwilio am atebiad yn ôl gan O Drws i Ddrws o heb wedi'i ddarganfod. Mae o wedi ail yrru'r ebost anfonwyd gan Pat Humphreys. Bydd yr eitem yma'n cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**6. Ebost Roger Fisher dyddiedig 21 Ebrill ynghlŷn â gosod mainc wrth y safle bws ym Maes Parcio Cil Dwrn.**
Darllenwyd llythyr Roger Fisher allan i'r aelodau. Dywedodd David Andrew Parry bod y mater yma wedi codi o'r blaen blynyddoedd yn ôl, i beidio rhoi mainc yno oherwydd plant yn ymgynull yno. Sonwyd y Cadeirydd bod angen mainc wrth yr hysbysfwrdd yn Eisteddfa fathau oedd yno o'r blaen yn lle gosod un ym Maes Parcio Cil dwrn. Penderfynwyd i ofyn iddo rhoid mainc efo cefn wrth Eisteddfa.

**7. Harddu'r pentref cyn yr Eisteddfod a tacluso o gwmpas bedd Gwynogfryn Evans**
Roedd Thomas Victor Jones wedi ymweld â bed Gwynogfryn Evans ac wedi adrodd i'r Cadeirydd ei fod yn eithaf dwt yna a dim ond eisiau strimio o'i amgylch yn nes at yr amser.

**8. Llwybrau**
Dywedodd David Andrew Parry fod llwybr trwy'r Nant angen ei strimio neu ei farbio. Cytunodd Gwenllian Davenport Hughes gyda'r sylwadau yma. Hefyd, dywedodd bod llwybr Pen Bryn (llwybr zigzag) angen ei strimio a'i dacluso, yn enwedig y mainc sydd yno gan bod blodau gwyllt wedi tyfu drosto. Dywedodd y Cadeirydd y buasai'n cysylltu efo'r dyn sy'n torri'r llwybrau.

**9. Y Fynwent**
Mae'r gwair wrthi'n cael ei dorri yn y fynwent. Mae rhan o wal y fynwent wedi cael ei drwsio, a mae'r rhan arall yn brysur cael ei weithio ar hefyd.

**Y Fynwent Newydd**
Diolchodd Hywel James Sinclair Evans am yr ebyst ynglŷn â'r mynwent newydd ond ei fod o a'r Cynghorwyr yn siomedig. Darllenwyd ebost gan Glyn o'r Adran Gynllunio yn son am sylwadau Dŵr Cymru am greu y fynwent newydd a beth yw'r ffordd ymlaen oherwydd diffyg cyfathrebiad ganddynt. Awgrymodd Glyn ein bod yn newid safle'r mynwent newydd i osgoi cyfarpar Dŵr Cymru yn gyfan gwbl. Gofynnodd Gwenllian Davenport Hughes beth roedd wedi newid ers i'r Cyngor Cymuned gyrru'r cais gweriddiol ar gyfer y fynwent (derbyniwyd y cais cynllunio gwreiddiol tua 10 mlynedd yn ôl). Dywedodd y Cadeirydd bod mesuriadau y cais cynllunio gwreiddiol yn anghywir a nid oedd Dŵr Cymru'n ymwybodol/wedi sylwi o'r pibellau sydd yn mynd trwy'r cae. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans ei fod yn siomedig gyda Dŵr Cymru ynglŷn â'r pwyntiau i wneud gyda iechyd a diogelwch y cyhoedd a peipan yn gollwng, a bod y siawns o'r peipan yma yn torri yn isel iawn. Dywedodd y Cadeirydd bod y peipan yma yn mynd o dan maes parcio hefyd. Dywedodd o dylsa Dŵr Cymru gwybod beth yw pwysedd y carthfosaeth ac os byddai'r peipan yn torri, faint o difrod wneith o achosi. Mae'r Cadeirydd ac aelod o Dŵr Cymru am drio trefnu cyfarfod ar y safle yma i drio datrys

a darganfod ffordd y ffordd ymlaen. Sonwyd Hywel James Sinclair am sylwadau AHNE ar y cynlluniau a bod nhw'n anheg. Wrth y safle mae yna modurdy, stad o dai, gwersyll carafannau a fferm, ni fydd mynwent yn amharu ar yr ardal yn fawr. Gofynnodd William Roger Jones os oedd Dŵr Cymru'n ymwybodol o led y peipan a lle mae o yn union. Dywedwyd fod nhw ddim a eu bod nhw eisiau i ni dalu ar gyfer y gwaith o'i ddarganfod. Dywedodd y Cynghorwyr i gyd fod llawer o drigolion y pentref ddim eisiau cael eu claddu yn lleoliad y mynwent newydd beth bynnag.

**10. Cae chwarae**

Nid oes yna unrhyw diweddariadau gyda'r cae chwarae.

**11. Neuadd y Pentref**

Adroddodd Gwenllian Davenport Hughes bod Snowdonia Fire wedi bod yno yn cwblhau asesiad risg tân. Gofynnodd Hywel James Sinclair Evans am gopi o'r asesiad risg, cytunodd Gwenllian Davenport i yrru o ymlaen ato i gael golwg. Bydd pwyllgor Neuadd y Pentref yn cyfarfod ar y 6ed o Fehefin.

**Materion eraill yn codi**

Dywedodd David Andrew Parry fod angen torri'r coed ym Maes Parcio Cil Dwrn ga neu bod yn rhy uchel ac yn beryg.

Cafwyd ebost gan Maes yr Ambiwlans Awyr yn diolch am rhodd o £100 ac hefyd gan Macmillan am rhodd o £50.

**Ebost Lôn Pin Solar Ltd.**

Daeth Dr Chris Bale o Lôn Pin Solar Ltd. i weld y Cadeirydd a datgan ei fod wedi anfon y cais cynllunio i fewn. Darllenwyd ebost allan ganddo hefyd yn son bod y Cyngor Cymuned a Lôn Pin Solar Ltd angen dechrau trafod 'Memorandum of Understanding' i ddiffinio cyfraniadau ariannol sylfaenol i'r gymuned lleol. Mae'r trafodeathau yma nawr yn rhan o geisiadau cynllunio solar. Penderfynwyd trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

**Taliadau i'w Cymeradwyo**

Ann Llwyd y Cyfieithydd- £155.35
Roger Fisher- £506
Ashley Hughes (offer swyddfa)- £28.38
PPM Technology (C.L. Jones am baent)- £87.51
PPM Technology (Meicroffon USB)- £44.48
Llanw Llŷn (hysbyseb swydd y clerc)- £36.90

**Taliadau wedi'u derbyn**

Praesept- £12,625
Ymddiriedolaeth Genedlaethol (cyfraniad tuag at y toiledau 2023-2024)- £1,000

**Ceisiadau cynllunio**

Gofynnodd William Roger Jones am ganlyniad cais cynllunio 'Crossways'. Adroddwyd fod y cais cynllunio wedi cael ei newid a bod y tŷ am gael ei ddymchwel a'i adeiladu yn bellach i ffwrdd o'r tai eraill.